

Porthaethwy
Ynys Môn
LL59 5SS
Ffôn: (01248) 712287
e-bost: ydhen@ynysmon.gov.uk



Menai Bridge
Isle of Anglesey
LL59 5SS
Tel: (01248) 712287
e-mail: ydhen@anglesey.gov.uk

Pennaeth / Headteacher
H.Emyr Williams BSc, MEd

Medi 1af, 2021

Annwyl Riant/Warcheidwad/Ddysgwr,

Wrth i dymor ysgol newydd agosáu, cysylltw'n i gadarnhau rhai trefniadau ar gyfer y tymor i ddod. Er bod yr amgylchiadau a wynebwn yn gwella mae'n rheidrydd arnom i barhau i fod yn ofalus a phwyllog er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch pawb.

PROFION LLIF UNFFORDD CYFLYM

Mae' r Awdurdod Lleol wedi rhannu'r arweiniad hwn:

Mae profion Covid-19 asymptomatig yn dal i chwarae rhan allweddol o ran cefnogi ysgolion i adnabod ac ynysu unigolion sydd wedi'u heffeithio. Felly anogir staff a dysgwyr oed uwchradd (yn cynnwys disgyblion sydd yn dechrau yn yr ysgol uwchradd am y tro cyntaf) i ddefnyddio'r profion 'llif unffordd cyflym' cyn dychwelyd i'r ysgol.

Mae profion 'llif unffordd cyflym' ar gael i'w casglu o wahanol leoliadau yn y gymuned ar gyfer eu defnyddio yn y cartref. Bydd cyflenwad ychwanegol hefyd ar gael o'r ysgol ar ddechrau'r tymor.

Rydym yn argymhell cymryd y prawf Ddydd Mawrth 31.08.21 a Dydd Gwener 03.09.21 (cyn teithio o'r cartref i'r ysgol). Os oes unrhyw un â symptomau Covid-19 bydd raid i unigolion fynd am brawf PCR ac hunan-ynysu hyd nes y daw'r canlyniadau. O wythnos nesaf ymlaen dylid cymryd y prawf bob BORE LLUN a BORE IAU cyn teithio i'r ysgol.

Mwy o wybodaeth am y lleoliadau casglu profion 'llif unffordd cyflym' ar gael yma:

<https://bipbc.gig.cymru/covid-19/profi-covid-19/trefnwch-brawf-covid-19/>

TREFNIADAU DYDD I DDYDD

Ar ddechrau'r tymor fe fyddwn yn y lle cyntaf yn gweithredu trefniadau tebyg i'r rhai oedd mewn lle ddiwedd y tymor diwethaf. Golyga hynny y bydd yna system unffordd, gwersi estynedig a blynyddoedd yn cael eu cadw ar wahân amser egwyl a chinio. Yn wahanol i'r tymor diwethaf ni fydd disgwyl i ddisgyblion wisgo masgiau mewn gwersi er byddwn yn parhau i ofyn iddynt wneud hynny rhwng gwersi ac ar y bysiau ysgol. Byddwn yn sicrhau awyru digonol mewn ystafelloedd, yn mynnu golchi dwylo cyson a pharhau hefo trefniadau glanhau cyson drwy'r dydd.

NEWIDIADAU I GANLLAWIAU CENEDLAETHOL

Mae'r Llywodraeth bellach wedi newid rhai canllawiau Cenedlaethol wrth ddelio hefo covid:

DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE

GIG CYMRU
NHS
WALES

Profi
Olrhain
Diogelu

Test
Trace
Protect

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

A yw'ch plentyn yn dychwelyd i'r ysgol uwchradd neu'r coleg?

Os yw o dan 18 oed neu wedi ei frechu'n llawn, nid oes rhaid iddo hunanynysu os yw'n dod i gysylltiad ag achos coronafeirws sydd wedi ei gadarnhau

Dylai gael prawf PCR ar ddiwrnod 2 a diwrnod 8, os cewch eich adnabod fel cyswilt

Rhaid hunanynysu'n syth os yw'n datblygu symptomau

#DiogeluCymru

DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE

GIG CYMRU
NHS
WALES

Profi
Olrhain
Diogelu

Test
Trace
Protect

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Yn dychwelyd i'r ysgol uwchradd neu'r coleg?
Symptomau?

Aros gartref a chofia gymryd prawf PCR

Dim symptomau?

Cofia barhau i gymryd profion llif unffordd cyson

Cymera'r brechlyn os yw'n cael ei gynnig i ti

Golcha dy ddwylo'n rheolaidd

Gwisgo gorchuddion wyneb pan fo'r angen

#DiogeluCymru

Edrychwn ymlaen yn fawr iawn at gael croesawu pawb yn ôl Ddydd Gwener, Medi'r 3ydd ac os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon, gwahoddir chi i gysylltu hefo ni drwy'r dulliau arferol.

Yn gywir,

H. Emyr Williams

Pennaeth